Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**



# Adroddiad Blynyddol 25/26

## Cefnogi Ymgysylltiad Cymunedol mewn Cynllunio

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

# Adroddiad Blynyddol 2025/26

## Cefnogi ymgysylltu cymunedol a chyfranogiad yn y system gynllunio yng Nghymru

www.planningaidwales.org.uk

Rhif Elusen 1000115
**Rhif Cwmni 2526875 (Cymru)**

Pob delwedd wedi'u cynhyrchu trwy AI.

## Am Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn hyrwyddo ac yn hwyluso ymgysylltiad cymunedol ystyrlon yn y broses gynllunio yng Nghymru.

Gall ymgysylltu cymunedol ystyrlon wneud y canlynol:

- Rhoi llais i bobl a meithrin eu sgiliau, eu hyder a'u gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Gwella ansawdd, priodoldeb a pherthnasedd datblygiadau newydd.
- Cynyddu balchder ac ymdeimlad o berchnogaeth o'r amgylchedd adeiledig.
- Meithrin cydweithrediad rhwng datblygwyr, cynllunwyr a chymunedau, gan arwain at gynlluniau gwell.
- Gwella ansawdd a pherthnasedd polisi cynllunio drwy ystyried gwybodaeth leol.
- Lleihau gwrthdaro, cyflymu a lleihau costau yn y broses rheoli datblygiad.

Fel y sefydliad ymgysylltu â'r gymuned wrth gynllunio, ein rôl yw meithrin dealltwriaeth o'r system gynllunio, cefnogi gwell ymgysylltiad â chynllunio lleol ac annog cydweithio rhwng cymunedau, awdurdodau cynllunio a datblygwyr. Trwy roi llais i bobl yn y system gynllunio, rydym ni'n helpu i greu Cymru fwy cyfartal gyda chymunedau mwy cydlynol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein Strategaeth ar gael yn ein Cynllun Busnes cyfredol 2024-2027: www.planningaidwales.org.uk/about-us/key-documents-and-policies/business-plans

# Ein Gwasanaethau



Mae ein gwasanaethau sy’n cael cyllid craidd yn cynnwys darparu hyfforddiant cynllunio i ystod o gynulleidfaoedd, datblygu canllawiau cynllunio hawdd eu deall a llinell gymorth cyngor cynllunio rhad ac am ddim.

Rydym ni hefyd yn ymgymryd â phrosiectau a chomisiynau ar ran Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chynghorau Cymuned a Thref.

## Hyfforddiant

Gall Cymorth Cynllunio Cymru ddarparu cyrsiau hyfforddi addysgiadol a diddorol ar gyfer aelodau etholedig, cynghorau cymuned a thref, grwpiau cymunedol a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r pynciau'n cynnwys 'Cyflwyniad i'r system gynllunio', 'Ymateb i geisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau cyn ymgeisio' a 'Chyflwyniad i Gynlluniau Bro'.

## Gwasanaethau Ymgysylltu â'r Gymuned

Fel sefydliad trydydd parti annibynnol, rydym ni wedi darganfod dro ar ôl tro bod cymunedau'n barod i ymgysylltu â ni, hyd yn oed lle mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod ar draws rhwystrau i ymgysylltu yn y gorffennol.

Fel rhan o'n proses, rydym ni’n annog cydweithrediad gweithredol rhwng staff awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau cymunedol, a thrwy hynny yn adeiladu perthnasoedd gwell ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol. Mae ein gwasanaethau ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys datblygu strategaeth ymgysylltu â'r gymuned, gweithdai hyfforddi adeiladu consensws, ymgysylltu â grwpiau a chefnogaeth Cynllun Bro, gan gynnwys hyfforddiant a datblygu Cynllun Bro.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi datblygu sawl dogfen ganllawiau cynllunio 'hawdd eu deall' ar ran Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol.  Mae enghreifftiau'n cynnwys placeplans.org.uk a Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr (gweler planningaidwales.org.uk/gtguide)

# Gwerth am Arian



Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnig gwerth eithriadol am arian wrth ddarparu ein gweithgareddau a'n gwasanaethau. Yn 2024/25 fe wnaethom ni gyflawni’r canlynol:

## Digwyddiadau Hyfforddiant a Rhwydwaith

- 8 cwrs hyfforddi i 149 o gynrychiolwyr, sy'n cynrychioli 62 o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
- 4 digwyddiad rhwydwaith gyda 239 o gynrychiolwyr yn mynychu.
- 3 Digwyddiad Seilwaith Cenedlaethol gyda 96 o fynychwyr
- 1 cwrs hyfforddi pwrpasol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mynychwyd 10.
- 95 o danysgrifwyr i'r Porth Hyfforddiant Ar-lein

### Llinell Gymorth:

- Cyfanswm yr Ymholiadau: 221
- Wedi’u helpu gan wirfoddolwyr: 48
- Achosion Lefel 2: 95
- Achosion Lefel 3: 20
- Cynghorau Cymuned a Thref wedi cael cymorth: 17

### Prosiectau

- Rhestri Nodiadau Cyngor Tref y Drenewydd
- Canllawiau Cynlluniau Bro Conwy / SPA
- Canllawiau SDP Llywodraeth Cymru
- CDLI Newydd Caerdydd

  Ymgysylltu â'r Gymuned mewn perthynas â'r CDLI Newydd – 6 digwyddiad ynghyd ag adroddiad.
  Nifer o fynychwyr: 106
- CDLI Newydd Caerffili

  Ymgysylltu â'r Gymuned mewn perthynas ag 2il CDLI newydd – 6 digwyddiad ynghyd ag adroddiad.
  Nifer o fynychwyr: 128
- Prosiect Ymgysylltu â Chynllun Datblygu Gofodol De-ddwyrain Cymru
  Nifer o fynychwyr: 32

### Canllawiau ar-lein – 14,981 o ddefnyddwyr

- Defnyddwyr i'r wefan Cynlluniau Cynefin: 3,072
- Defnyddwyr unigryw i dudalennau cyngor cynllunio gwefan PAW: 16,110
- 6 Cylchlythyr i 1,189 o danysgrifwyr

# Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf

## Ymgysylltu â’r Gymuned ar gyfer Cymdeithas Tai Bron Afon – Datblygiad Tai Fforddiadwy, Tir ar Heol Hillgrove, Y Mardy, Y Fenni

### Cefndir

Penodwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Gymdeithas Tai Bron Afon i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â’r gymuned, gyda thrigolion, mewn perthynas â datblygiad tai fforddiadwy ar dir ar Heol Hillgrove, y Mardy, y Fenni. Roedd Bron Afon yn ceisio sefydliad annibynnol i arwain gwaith ymgysylltu cynhwysol a hygyrch er mwyn rhoi cyfle i gyfranogwyr leisio eu barn yn rhydd. Mae gan Cymorth Cynllunio Cymru ddegawdau o brofiad o egluro’r system gynllunio i gymunedau, ac roedd mewn sefyllfa dda i gyflawni hyn.

### Beth Wnaethom Ni

Fe wnaethom gynnal dau ddigwyddiad ymgysylltu â’r gymuned yn yr ysgol gynradd leol, sydd wedi’i lleoli’n gyfagos i’r safle arfaethedig, ym mis Ionawr a mis Chwefror 2026. Roedd y sesiynau hyn yn agored i amrywiaeth eang o grwpiau, gan gynnwys trigolion, cynghorau cymuned a sefydliadau â diddordeb arbennig.

Ein rôl oedd nodi'r ardaloedd preswyl a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig, ac esbonio'r datblygiad a'r broses gynllunio a fyddai'n cael ei dilyn.

Roedd y digwyddiad cyntaf yn cynnig trafodaeth strwythuredig a deialog wedi'i hwyluso. Cofnodwyd yr adborth a gasglwyd yn y digwyddiad hwnnw mewn adroddiad ffurfiol a gyflwynwyd i Bron Afon er mwyn ei ystyried wrth iddynt symud ymlaen â datblygu'r cynllun. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg: egwyddor tai a fflatiau fforddiadwy, materion draenio, pryderon ynghylch priffyrdd, materion bioamrywiaeth, a'r effaith ar yr ysgol.

Bwriad yr ail ddigwyddiad oedd iddo fod yn rhan o'r ymgynghoriad PAC ffurfiol, ond fe'i addaswyd i fod yn sesiwn galw heibio 'cyn-PAC' arall i'w gynnal cyn unrhyw ymgyngoriadau PAC ffurfiol pellach a fyddai'n cael eu cynnal gan Bron Afon yn ddiweddarach. Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle pellach i gymryd rhan, galluogi trigolion nad oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn gyntaf i ymgysylltu, a chasglu cyflwyniadau ysgrifenedig drwy ffurflenni ymateb strwythuredig. Roedd yr adborth o'r ail ddigwyddiad yn atgyfnerthu'n gryf y themâu a nodwyd yn y digwyddiad cyntaf.

Paratowyd adroddiad o'r ddau ddigwyddiad a'i gyflwyno i Bron Afon i lywio eu hystyriaeth a'u cynnydd o ran y datblygiad terfynol.

**Ble Oedd y Gwerth?**

Fe wnaeth ein presenoldeb niwtral alluogi trafodaeth agored, tra bod ein dull hygyrch wedi helpu pobl i gyflwyno eu barn a sut y gallent gyfrannu wrth symud ymlaen. Fe wnaethom gyrraedd cynulleidfaoedd na fyddent fel arall wedi cael y cyfle i ddeall y datblygiad, a darparwyd ymgysylltiad ystyrlon - gan feithrin dealltwriaeth, casglu tystiolaeth, a chryfhau'r berthynas rhwng cymunedau a'r system gynllunio.

**Cyfoeth Naturiol** Cymru
**Natural Resources** Wales

## Hyfforddiant Cynllunio Tref - CNC

**Cefndir**

Comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru i ddarparu hyfforddiant cynllunio ar gyfer cynghorwyr arbenigol Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd ein comisiwn yn cynnwys darparu dwy sesiwn hyfforddi ar:

1. Y system gynllunio yng Nghymru
2. Rôl CNC yn yr ymgyngoriadau cynllunio.

Nod y gweithdy cyntaf oedd cyflwyno'r cyfranogwyr i'r system gynllunio yng Nghymru, gan gynnwys trosolwg o gyfraith a pholisi cynllunio, a strwythur sylfaenol y system yng Nghymru, Polisi Cynllunio a phrosesau Rheoli Datblygu.

Nod yr ail weithdy oedd egluro proses fewnol CNC a'r categorïau ar gyfer ymateb i ymgyngoriadau cynllunio.

**Beth wnaethom ni**

Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad o'r materion perthnasol ynghyd ag astudiaethau achos a chyfleoedd i gyfranogwyr ofyn cwestiynau. Yn ogystal â'r ddau ddigwyddiad, fe wnaethom ni gynhyrchu dau fideo hyfforddi yn ymdrin â'r ddwy sesiwn, a rhoddwyd y rhain i CNC i'w cynnwys yn eu llyfrgell ddysgu fewnol ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol.

**Ble Oedd y Gwerth?**

Mynychwyd y sesiynau ar-lein gan tua 50 o bobl ym mhob digwyddiad. Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn gallu defnyddio ei brofiad sylweddol ym mhob agwedd ar y system gynllunio i ddarparu sesiwn oedd yn esbonio i arbenigwyr nad ydynt yn arbenigwyr ar gynllunio yn CNC beth yw prosesau a chyfyngiadau'r system gynllunio. Y nod oedd sicrhau bod eu hymateb i gynllunwyr CNC yn briodol i'r gofynion. Caniataodd yr ail sesiwn i ni egluro amserlenni a gofynion tîm cynllunio CNC. Yn olaf, mae'r fideos yn galluogi datblygiad proffesiynol parhaus i staff ar faterion cynllunio.

**Community Places Northern Ireland yn ymweld â Chymru i gyfnewid gwybodaeth dros Ŵyl Sant Padrig**




Yn ddiweddar, croesawodd Cymorth Cynllunio Cymru gydweithwyr o Community Places Northern Ireland i Ogledd Cymru ar gyfer ymweliad ysbrydoledig i gyfnewid gwybodaeth dros ddeuddydd o amgylch Dydd Gŵyl Sant Padrig.

Roedd yr ymweliad yn gyfle gwych i ddangos y gwaith cydweithredol a wnaed gan Cymorth Cynllunio Cymru a Chyngor Tref Bae Colwyn wrth ddatblygu Cynllun Lle *(Place Plan)* trawiadol, gan greu gofod hefyd i rannu syniadau, mewnwelediadau a dulliau ymarferol o ymgysylltu â'r gymuned. Caniataodd y trafodaethau hyn i'r ddau sefydliad archwilio nodweddion tebyg a gwahanol yn eu systemau cynllunio datganoledig.

Un o uchafbwyntiau'r ymweliad oedd cyfarfod â'r Tîm Cynllunio yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, lle cynhaliwyd trafodaethau gwerthfawr ar ymgysylltu cymunedol a phrofiadau a gododd o'r ymgynghoriadau diweddar ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (RLDP).

Cyfarfu'r grŵp hefyd â swyddogion o Gyngor Tref Bae Colwyn, ar y cyd ag aelodau o Grŵp Llywio'r Cynllun Lle. Daeth y sesiynau hyn â phroses y Cynllun Lle yn fyw trwy glywed profiad y rhai fu'n ymwneud â'r gwaith, gan dynnu sylw at y newidiadau cadarnhaol sydd eisoes ar y gweill a chyfleoedd ariannu newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers ei fabwysiadu.

Daeth yr ymweliad i ben gyda thaith gerdded o amgylch Bae Colwyn, i ddangos y gwelliannau a wnaed i lan y môr ac amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i adfywio canol y dref.

Dywedodd James Davies, Prif Weithredwr Cymorth Cynllunio Cymru:

*"Mae hanes hir a gwerthfawr o gydweithio rhwng y sefydliadau Cymorth Cynllunio ledled y DU. Ond ein profiad cyfnewid dysgu diweddar yw'r enghraifft orau a welais o'r ymdrech i greu pontydd.*

*Mae wedi atgyfnerthu ein dibenion cyffredin, wedi dyfnhau ein dealltwriaeth o'n gilydd ac wedi creu sylfaen gref ar gyfer cydweithio mwy ystyrlon a chynaliadwy yn y dyfodol."*

Roedd yr ymweliad yn gyfle gwerthfawr iawn i gyd ddysgu, gan atgyfnerthu ymrwymiad a rennir i rymuso cymunedau trwy gynllunio ar y cyd.




# Gwirfoddoli a Llywodraethu



### Gwirfoddolwyr

Rydym ni'n dibynnu ar ein rhwydwaith o tua 21 o wirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn helpu gydag ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys darparu cyngor i aelodau o'r cyhoedd, darparu hyfforddiant a datblygu canllawiau hygyrch. Mae mwy o wybodaeth am wirfoddoli yma: [www.planningaidwales.org.uk/volunteer](http://www.planningaidwales.org.uk/volunteer)

### Bwrdd Rheoli

I gael rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Rheoli, ewch i'n tudalen we yma: [www.planningaidwales.org.uk/our-people/management-board/](http://www.planningaidwales.org.uk/our-people/management-board/)

### Gwybodaeth ariannol

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym ni hefyd yn cynhyrchu incwm ychwanegol trwy weithgareddau prosiect a gomisiynwyd. Bob blwyddyn mae'r Bwrdd Rheoli yn adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn gosod cyllideb flynyddol yn erbyn ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Trwy'r broses hon, nod y Bwrdd yn gyffredinol yw cydbwyso'r llyfrau neu, lle bo angen, ceisio sicrhau gwarged bach i adeiladu cronfeydd wrth gefn yr elusen ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol ac ar gyfer lliniaru risg ariannol. Mae polisïau rheoli risg a chronfeydd wrth gefn wedi'u nodi yn Adroddiad y Cyfarwyddwr sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon terfynol ar gyfer 2025/26: [www.planningaidwales.org.uk/about-us/key-documents-and-policies](http://www.planningaidwales.org.uk/about-us/key-documents-and-policies)